Trevor (Ernest Urban) Huddleston 1913–1998

Archesgob Cefnfor India ac aelod o'r Community of the Resurrection

Ail blentyn ac unig fab oedd Trevor Huddleston i'r Capten Syr Ernest Whiteside Huddleston a'i briod, Elsie. Ganwyd ef ar 15 Mehefin 1913 yn Golders Green, Middlesex. Gan fod ei dad yn gweithio yn India, ni chyfarfu ag ef hyd nes ei fod yn saith oed. Treuliai ei fam hefyd lawer o'i hamser yno ac felly fe'i magwyd ef a'i chwaer gan fwyaf gan eu modryb Charlotte Dawson Robinson, chwaer eu mam. Roedd Huddleston yn blentyn i'r mudiad Anglo-Gatholig o fewn i Eglwys Loegr a mynychai eglwys St Michael's, Golders Green. Pan oedd yn saith oed aeth i ysgol ragbaratoawl Tenterden Hall yn Hendon. Wedi pedair blynedd yng Ngholeg Lancing aeth i Goleg Eglwys Crist, Rhydychen, ym 1931. Yno, enillodd radd ail ddosbarth mewn hanes modern ym 1934.

Glynodd Huddleston yn dynn wrth uchel eglwysyddiaeth Anglicanaidd ei fagwraeth, er iddo ddysgu, yn wahanol i rai offeiriaid uchel eglwysig eraill, na ellir caru Duw na ellir ei weld heb garu brawd y gellir ei weld. Ar ôl gadael Rhydychen fe aeth i'r Wells Theological College lle y cafodd ei ddenu yn raddol at fywyd mynachaidd yn enwedig y Community of the Resurrection, oedd â'i ganolfan yn Mirfield, West Riding, Swydd Efrog. Aeth am gyfnod i St Mark's, Swindon, lle yr hyfforddid offeiriaid ifanc ac a oedd ar y pryd yn llawn gweithgarwch ac egni Anglo-Gatholig. Ym 1936 fe'i hordeiniwyd yn ddiacon a'r flwyddyn ddilynol yn offeiriad. Ymunodd â'r gymuned yn Mirfield fel nofydd ym 1940, ac ym 1941 daeth yn aelod cyflawn o'r Community of the Resurrection gan dyngu llw triphlyg o dlodi, diweirdeb ac ufudd-dod. Cafodd dipyn o syndod pan benododd y Tad Raymond Raynes ef fel yr offeiriad oedd yn gyfrifol am waith y genhadaeth Anglicanaidd yn Sophiatown ac Orlando yn esgobaeth Johannesburg, De Affrica, ym 1943. Safai y Community of the Resurrection dros hawliau dynol pob unigolyn a chyfiawnder hiliol. Wedi iddo fynd i Dde Affrica gwelodd y dioddefaint a'r anghyfiawnder a wynebai llawer o'i blwyfolion o ddydd i ddydd. Yn fuan roedd yn protestio yn erbyn deddfwriaethau anghyfiawn y llywodraeth. Mynnodd

ymladd yn erbyn drygioni a thros degwch ac urddas i'r bobl groenddu yr oedd yn gweinidogaethu yn eu plith. Dywedodd Nelson Mandela amdano, 'Cerddai'r Tad Huddleston ar ei ben ei hun bob awr o'r nos mewn mannau yr oeddem ni yn ofni troedio. Enillodd ei ddewrder gefnogaeth pawb. Nid oedd neb yn barod i'w gyffwrdd, dim gangster, tsotsi na lleidr.' Erbyn 1948 roedd Huddleston wedi sylweddoli bod hiliaeth sefydliadol – a fynegid trwy bolisi apartheid y cenedlaetholwyr – yn groes i'r Efengyl Gristnogol. Daeth i gredu bod apartheid yn ddrygioni annioddefol, yn drais yn erbyn dynoliaeth ac yn rym dieflig oedd yn dryllio delw Duw o fewn dyn. Yn Hydref 1955 galwyd Huddleston yn ôl i Mirfield, Lloegr. Erbyn hynny roedd wedi ysgrifennu llyfr o'i brofiadau yn Affrica yn dwyn y teitl *Naught for your Comfort*. Yn y llyfr canolbwyntiai ar ddeddfwriaeth apartheid oedd yn amddifadu pobl dduon maestrefi De Affrica o unrhyw hawliau, boed addysg, iechyd, cyflogaeth neu hunan barch. Gresynai at arafwch Ewropeaid, Americaniaid a'r Undeb Sofietaidd i wrthwynebu'r hyn a ddigwyddai yno. Cafodd ei lyfr effaith fawr ar lawer iawn o bobl ifanc ar hyd a lled y byd.

Bu yn Llundain am gyfnod cyn dychwelyd i Affrica ym 1960, y tro hwn fel esgob Masasi yn Ne Orllewin Tanganica. Cyn gadael Llundain anerchodd y cyfarfod cyntaf o'r Mudiad Gwrth Apartheid gyda'i gyfaill mawr Julius Nyerere. Daeth Tanganica yn annibynnol ym 1961 a chynorthwyodd Huddleston arweinyddiaeth y wlad newydd i ddatblygu eu democratiaeth. Dychwelodd i Lundain ym 1968 fel esgob cynorthwyol Stepney yn yr East End. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach fe'i hetholwyd yn esgob Mauritius ac yna yn Archesgob Cefnfor India. Tra oedd ym Mauritius etholwyd ef yn llywydd y Mudiad Gwrth Apartheid ac o dan ei arweiniad dylanwadodd y mudiad yn drwm ar farn pobl gwledydd Prydain. Ef oedd yr ysgogydd y tu ôl i ymgyrch rhyddhau Nelson Mandela. Un o uchafbwyntiau'r ymgyrch honno ym 1988 oedd cyngerdd mawr yn stadiwm Wembley a ddarlledwyd i dros biliwn o bobl yn fyd-eang. Teithiodd yn ddiflino i gannoedd o gyfarfodydd ym Mhrydain yn gwrthwynebu apartheid ac yn hyrwyddo'r ymgyrch. Ar ddiwedd ei oes cafodd ei anrhydeddu gan ddegau o sefydliadau oedd am fynegi eu gwerthfawrogiad o'i lafur mawr. Bu farw yn Mirfield ar 20 Ebrill 1998 a chladdwyd ei lwch yn eglwys Christ the King yn Sophiatown, De Affrica.